# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 09 Medi Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher yr 12fed o Fedi 2007 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Carwyn James (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Keith Rees, Richard Howell, Anne Sizmur, Loreen Lewis, Menna Roberts, June Gunter, Audrey Jones, Delyth Richards a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Annette Price a Betsan Jones.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 11eg O ORFFENNAF 2007.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Menna Roberts ac eiliodd y Cynghorwr Audrey Jones fod cofnodion cyfarfod y 11eg o Orffennaf 2007 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelod cyfetholedig y Cynghorwr Richard Howell i Gyngor Cymuned y Betws.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Darllenodd y Clerc llythyr a dderbyniwyd wrth Gyfreithiwr Llys Cennen, sy'n gofyn am enwau o ymddiriedolwyr a fydd yn arwyddo ar ran y Cyngor Cymuned. Dywedodd y Cynghorwr Carwyn James wrth y Cynghorwyr pan gwrddodd ef gyda'r Cyfreithiwr, dywedwyd nid oedd eisiau ymddiriedolwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach gyda'r Cyfreithiwr o Lys Cennen ynglyn â'r ymddiriedolwyr.

2.2 Ffens amgylch lle chwarae ar Heol Y Felin.
Adroddodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud bod nhw yn y broses o gostio'r uwchraddio a'r brigo i'r wyneb yn Heol y Felin, ar hyn o bryd mae yna arian annigonol am y gwaith ac unwaith fydd y costio yn dod i ben fydd y gwaith yn cael ei thrafod gyda Paul Murray. Nid oedd y Cynghorwr Keith Rees yn hapus gyda hyn oherwydd bod plant dal yn dringo ar y ffens amgylch lle chwarae Heol y Felin.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.3 Parc Treforys.
Adroddodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn llythyr wrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud yn dilyn archwiliad blynyddol o Barc Treforis mae'r lle chwarae wedi cael ei adnabod fel risg mawr. Mae'r Cyngor Sir ar hyn o bryd yn adolygu eu cyfleusterau chwarae a fydd penderfyniad ar ddyfodol y lle chwarae hwn yn cael ei wneud ar ôl i'r adolygiad ddod i ben.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.4 Adeiladu 16 Tyrbinau Gwynt ar Fynydd y Betws.
Adroddodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb wrth Rhodri Glyn

Thomas, a dywedwyd ei fod ef wedi ysgrifennu at y Gweinidog am yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn y Cynulliad ynglyn ar fater hyn ac mae ef wedi gofyn am ei Chyngor fel gall ymchwiliad cael ei gwneud. Fydd hyn yn cael ei ddanfon ymlaen at y Cyngor Cymuned yn ei dro.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.5 Cytundeb Adran 106.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ateb wrth Graham Noakes, a ddarllenwyd i'r Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn danfon ymateb i atgoffa Cyngor Sir Caerfyrddin am y Cytundeb Adran 106 ar y datblygiad newydd ar safle Gwaith Glo Betws. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.6 Gwasanaeth tan ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Gwasanaethau Tân yn Nyffryn Aman.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Wasanaeth tân ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dweud fod sylwadau Cyngor Cymuned y Betws wedi cael ei nodedig a fydd hyn yn cael ei corfforedig yn ganlyniadau'r ymgynghoriad.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.7 Yswiriant y Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod y rhestr 'pob risg' wedi cael ei diwygiedig yn unol â hynny ac fel dalwyd y premiwm yswiriant ym mis Awst 2007.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.8 Ysgol Gyfun Dyffryn Aman.
Darllenodd y Clerc gohebiaeth a dderbyniwyd wrth Bennaeth Ysgol Gyfun Dyffryn Aman i'r Cynghorwyr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cynrychiolydd Awdurdod Llai ar Gorff Llywodraeth Ysgol.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin a dywedwyd fod y Cynghorwr June Gunter ar hyn o bryd yn Gynrychiolydd Awdurdod Llai ar Gorff Llywodraethol Ysgol Y Betws, fydd ei chyfnod yn y swyddfa yn gorffen ar y 31 o Ragfyr 2007, a fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned dewis cynrychiolydd newydd (maen nhw'n gallu dewis Cynghorwyr June Gunter eto os maen nhw am). Awgrymodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Audrey Jones fod Cynghorwr June Gunter yn cael ei hethol fel Cynrychiolydd Awdurdod Llai ar Gorff Lywodraeth Ysgol y Betws. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn diweddaru Cyngor Sir Caerfyrddin.

3.2 Gardd Synhwyro a Choffa ym Mharc Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r posibilrwydd o gael arian at hysbysebu Gardd Synhwyro a Choffa ym Mharc Betws. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cynnal 'diwrnod agored' o'r Parc, awgrymodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod y Clerc yn ysgrifennu i weld os oes arian ar gael i gynnal 'picnic ym mharc Betws'. Cytunwyd y Cynghorwyr.

PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu i wneud ymholiadau i weld a oes arian ar gael i gynnal picnic ym mharc Betws?

Roedd y Cynghorwr June Gunter wedi cymeradwyo'r Cynghorwyr oedd ac wedi gweithio ar Brosiect ym Mharc Betws.

3.3 Newyddiadur Caerfyrddin.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth newyddiadurwr o Newyddiadur Caerfyrddin yn gofyn am gopïau o agendas a chofnodion y Cyngor Cymuned.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu i'r Newyddiadur Caerfyrddin i ddweud wrthynt fod copiau or agendas a'r cofnodion i gael ar wefan Cymuned y Betws.

Hefyd PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu i'r Guardian i ddweud wrthynt fod copiau or agendas a chofnodion ar wefan Cymuned y Betws, ac nid fyddant yn cael copïau called rhagor.

3.4 Arolygwr Tony Ward.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Arolygwr Tony Ward wedi ymgymryd mewn swydd newydd a fydd yn cael ei ailosod gan Arolygwr Frank Phillips. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cyngor Cymuned yn ysgrifennu at Arolygwr Frank Phillips i weld os yw am gwrdd â'r Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Arolygwr Frank Phillips.

Awgrymodd y Cynghorwr Arnallt James ac fe gytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Arolygwr Tony Ward i roi diolch iddo am y cymorth mae ef wedi rhoi i'r Cyngor Cymuned, tra ei bod yn ei swydd.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Arolygwr Tony Ward.

3.5 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
Cyngor Sir Caerfyrddin
1.Adolygiad o Ardaloedd Pleidleisio, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio - ymgynghoriad.
2.Arolwg o Gymuned.
3.Partneriaeth Sir Gaerfyrddin Adroddiad Blynyddol 2006/07.
4.Gynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin – cylchredeg ymysg y Cynghorwyr.
5.Tystysgrif Glanhau Sir Gaerfyrddin - rhoddwyd i Gynghorwr Menna Roberts fel y gallu ddodi ar wefan Cymuned y Betws.
6.Cynllun Gweithredu – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – Rhoddwyd i Gynghorwyr Keith Rees/Arnallt James.
Un Llais I Gymru
7.Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar y 13eg o Hydref 2007.
8.Cyfarfod Ardal Caerfyrddin ar ddydd Iau 13eg o Fedi 2007.
Llywodraeth Cynulliad Cymru
9.Ymgynghoriad - Gweledigaeth Leol, Paratoi Strategaethau Lleol - canllawiau diwygiedig ar Strategaethau Cymunedol - rhoddwyd i Gynghorwr June Gunter.
10.Cymuned a Rennir.
Eraill
11.Anturiaeth Dyffryn Aman.
12.Cyfarfod Rhwydweithiau Cymunedol - Dydd Iau'r 7fed o Chwefror 2008.
13.Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.
14.Tesco - £20 Taleb Cymuned.
15.Taflen Newyddion HOWLTA - rhoddwyd i Gynghorwr Carwyn James.
16.Bwrdd Iechyd Lleol.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai cynllunio canlynol:-
E/16847 - Ty gwydr i blaen ger 8 Treforis, Betws (20/2007-08).
E/16846 – Tynnu lawr gegin/ystafell amlbwrpas ac ail adeiladu gegin/ystafell wely ger 94 Heol y Cyrnol, Betws (21/2007-08).
E/17016 - Ail-cyflwyniad o gais cynllunio i drawsnewid garej mewn i ystafell astudio ger 16 Golwg y Mynydd, Betws (23/2007-08).
E/16909 - llwybr troed i gael ei dileu o'r ochr ar dir ger 74 Heol Maescware, Betws (22/2007-

08) - Mae'r Cynghorwyr yn pryderu oherwydd pam mae'r perchennog wedi concrid dros y twll archwilio sydd ar bwys y cae.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r cais cynllunio canlynol:-
E/16668 - Estyniad Dwbl ger 4 Heol Y Felin, Betws (18/2007-08).
E/16569 - Cais i ddiwygio cais cynllunio blaenorol ar gyfer plot 10 Parc Coetir, Betws (15/2007-08).
E/16566 - Cais i ddiwygio cais cynllunio blaenorol ar gyfer plot 11 Parc Coetir, Betws (12/2007-08).
E/16594 - Estyniad dau lawr i gefn y ty gyda theras haul uwchben, 48 Ffordd y Cyrnol, Betws (16/2007-08).
E/16568 - Estyniad i barlwr angladd ger 39 Heol y Betws, Betws (14/2007-08).
E/16567 - I barhau datblygiad a ddechreuwyd heb gydymffurfio gyda chaniatâd cynllunio E/02862 ar Farm Banc Y Wern, Betws (13/2007-08).
E/15850 – Codiad o 3 adeilad diwydiannol ger Gwaith Glo Betws, Rhydaman (3/2007-08).

4.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r cais cynllunio canlynol:-
E/15910 – Adeilad Dros Dro yn Ysgol y Betws (06/2007-08).

4.4 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r cais cynllunio canlynol:-
E17037 - Newid arfer o safle washery i gyfleuster ailgylchu ger Glyncywarch Washery, Betws (24/2007-08).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
Mis Awst
1. Cyngor Sir Caerfyrddin (taliadau am oleuo'r llwybrau) £303.76
2. Cymdeithas Teithiwr Sir Caerfyrddin (gwefan y Gymuned) £41.13
3. Valley Engraving Ltd (Prosiect Parc Betws) £340.46
4. Yswiriant Zurich (yswiriant y Cyngor Cymuned) £339.68

Mis Medi
5. Rhodd – Mynwent Capel Newydd £150.00
6. Rhodd – Mynwent Eglwys Dewi Sant £150.00
7. Cynghorwr Anne Sizmur (Betws yn ei Blodau) £30.00
8. Morgan & Morgan (Offer Swyddfa) £68.18
9. Cyflog a Lwfans y Clerc £854.81
10. Treth Incwm y Clerc £184.78
CYFANSWM £1437.77

PENDERFYNODD y Cynghorwyr i dalu'r biliau uchod.

5.2 Incwm a dderbyniwyd.
1. Prosiect Parc Betws £1900.00
2. Prosiect Parc Betws £8550.00
3. Precept wrth Gyngor Sir Caerfyrddin (Ail randal) £4333.33

NODWYD yr uchod gan y Cynghorwyr.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna un trosedd i'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Gorffennaf, a bod saith trosedd i'w nodi yn ardal y Betws am fis Awst.

Adroddodd y Cynghorwr Audrey Jones fod rhai cerbydau'r Heddlu yn teithio ar hyd Heol

Pentwyn gan wneud tua 45 myy, (nid yw ei seirenau ar). Dywedodd PC Jones fydd yn codi'r mater hyn gyda'u Harolygwr.

Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans fod plant yn achosi problemau yn lle chwarae ar Heol Y Felin, gofynnodd a gall yr Heddlu monitor sefyllfa hyn. Fydd PC Jones yn edrych mewn i'r mater hyn.

Hefyd adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans bod menyw wedi cael ei lladd blwyddyn ddiwethaf ger y 'Filltir Fain'. Mae Heddlu Abertawe wedi bod yn fonitor cyflymder traffic ar hyd yr hewl hon ac mae yna gerbyd wedi cael ei chofnodi yn gwneud 91myy. Darllenodd y Cynghorwr Sir John D Evans llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Dinas Abertawe ynglyn ar 'hewl o Fetws i fynydd y Betws'. Gofynnodd y Cynghorwr Sir John D Evans i'r Clerc wneud copi o'r llythyr.

Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis yn absenoldeb y Cynghorwr Annette Price fod yna ddau ddigwyddiad wedi cael ei adrodd ynglyn â chwn yn Treforis. Nid oedd PC Kevin Jones yn ymwybodol o hyn a fu'n edrych mewn i'r matter hyn.

Adroddodd y Cynghorwr Arnallt James fod cerbydau yn cyflymu ar hyd Heol Maescware. Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur taw beiciau modur yw'r prif droseddwyr. Dywedodd PC Kevin Jones fydd yn danfon hyn ymlaen at y fan cyflymder.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans yn bresennol yn y cyfarfod misol ac adroddodd ar y mater canlynol:-
Mae llawer iawn o'r cyhoedd yn wrthwyneb gais cynllunio ar safle Gwaith Glo Betws. Mae ef wedi ysgrifennu at Bennaeth Cynllunio i weld os gall ymweld â'r safle cael ei ymgymryd. Fydd y cais cynllunio yn mynd o flaen y Pwyllgor Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin tua diwedd miss Hydref 2007.

NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cynghorwr Sir John D Evans am ei adroddiad.

8. POLISI AR WEITHREDOEDD ANNERBYNIOL GAN UNIGOLION
Roedd y Clerc wedi dosranedig copïau o'r 'Polisi Ar Weithredoedd Annerbyniol Gan Unigolion' i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod Cyngor Cymuned y Betws yn mabwysiadu'r 'Polisi Ar Weithredoedd Annerbyniol Gan Unigolion'

9. ASESU RISG.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fel rhan o'r Archwiliad Mewnol mae rhaid gwneud asesiad risg o reolaeth ariannol y Cyngor Cymuned. Rhoddwyd y Clerc copïau o'r rhestr asesu risg i'r Cynghorwyr. Roedd gan y Cynghorwr Delyth Richards newidiad i wneud ynglyn â'r Polisi Cymraeg.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr ei bod nhw'n gytûn gyda'r newidiad a hefyd derbyniwyd yr asesu risg.

10. TY HAF YM MHARC BETWS.
Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr os maen nhw am iddi dal i wneud ymholiadau ynglyn â rhoi cais am orchymyn cadwraeth ar y Ty Haf ym Mharc Betws.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn dal i wneud ymholiadau ynglyn â rhoi cais am orchymyn cadwraeth ar y Ty Haf ym Mharc Betws.

11. GWAREDU DOGFENNAU CYNGOR CYMUNED Y BETWS.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod ganddi ddogfennau canlynol ynglyn â Chyngor Cymuned y Betws:-
Cyfriflenni Banc 1970 – 2000
Anfonebau 1997 – 2001
Copïau o notices penderfyniadau Cynllunio 1987 - 2001
Cyfrifon Archwiliedig 1997 – 2001
Dywedodd y Clerc yn gytundeb gydag Un Llais I Gymru 'cadwraeth cofnodion' mae'r dogfennau uchod yn gallu cael ei gwaredu.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gallu gwaredu'r dogfennau uchod yn addas.

12. ADRODDIADAU.
12.1 Gardd Synhwyro a Choffa ym Mharc Betws.
Rhoddodd y Clerc copïau i'r Is Bwyllgor Prosiectau o'r taliadau sydd wedi cael ei wneud a derbyn. Roedd y Cynghorwyr wedi rhoi caniataid i'r Clerc wneud taliadau ar ran y Cyngor Cymuned ynglyn â Phrosiect Parc Betws, oherwydd mae rhaid i'r grant cael eu hawlio cyn diwedd mis Rhagfyr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

13. UNRHYW FATER ARALL.
13.1 Gwefan Cymuned y Betws.
Fe ofynnodd y Clerc am ganiatâd i roi agendas a chofnodion yr Is-bwyllgor Ariannol a hefyd y Cyfarfodydd Blynyddol ar Wefan Cymuned y Betws.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn rhoi agenda a chofnodion Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned ar wefan y Gymuned.

13.2 Heol Maescware, Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Carwyn James fod yna clawdd ar hyd Heol Maescware sy'n hongian ar yr hewl. Enw'r ty yw Is-Awel. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James ac fe gytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran y Briffordd.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu ar Adran y Briffordd o Gyngor Sire Caerfyrddin.

13.3 llwybr troed 68/11.
Adroddodd y Cynghorwr Carwyn James fod yna twll archwilio ar lwybr troed 68/11 sy'n mynd o Heol y Cyrnol tuag at Heol Maescware sy'n uwch na lefel y llwybr. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James ac fe gytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Ddwr Cymru.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Ddwr Cymru i ofyn iddynt ostwng y twll archwilio i fod yr un level ar lwybr troed.

13.4 Tir Comin.
Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod y preswylwyr am gadw'r tir comin. Awgrymodd y Cynghorwr Loreen Lewis ac fe gytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Aelod Cynulliad Cymru.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Aelod Cynulliad Cymru.

13.5 Heol Waungron, Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Delyth Richards fod llawer iawn o sbwriel ar ben y rhiw ger Heol Waungron. Awgrymodd y Cynghorwyr Delyth Richards fod y clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn iddynt a gall y sbwriel cael ei glirio. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

13.6 Cymhorthfa'r Cyngor Cymuned.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol yn y gymhorthfa cyn cyfarfod mis Medi.

NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

Gorffennodd y Cyfarfod am 8.45 yr hwyr.